Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2022 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3341A2023

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar drefniadau y sefydliadau hynny wrth ddefnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw anstatudol ar y cyd ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân, pob un â'u swyddogaethau cyfreithiol ei hun fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu weithiwr arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Os bydd cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r adran Cod 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru i swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwilio cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau y defnyddir adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus 11

Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 15

Atodiad 2 – Ffi archwilio 17

Atodiad 3 – Archwilio risgiau cyfrifon 18

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2022 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

2 Rwy'n adrodd ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwilio cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau y defnyddir adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol

3 Cynhaliwyd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Roedd cyrff iechyd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a gyflwynwyd gan yr argyfwng iechyd cyhoeddus ond roeddent hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r nifer sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Dyluniwyd fy rhaglen waith, felly, er mwyn sicrhau i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Rwyf wedi ystyried effaith yr argyfwng presennol ar gadernid a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

4 Fy nod oedd sicrhau nad oedd fy ngwaith yn rhwystro cyrff cyhoeddus wrth fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi craffu a dysgu. Gwnaethom barhau i weithio ac ymgysylltu o bell pan oedd hynny'n bosibl gan ddefnyddio technoleg, ond ailddechreuodd rhywfaint o waith archwilio ar y safle lle'r oedd yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar sut rydym yn cyflawni gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Fel yn achos y ddwy flynedd flaenorol, mae cyflwyno fy archwiliad o waith cyfrifon wedi parhau o bell yn bennaf. Mae'r llwyddiant i'w gyflawni yn adlewyrchu ymdrech gyfunol wych gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd.

6 Rwyf wedi addasu pwyslais a dull fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng ac i alluogi gweithio o bell. Rwyf wedi gwneud sylwadau ar sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio. Mae fy nhîm archwilio lleol wedi gwneud sylwadau ar sut mae trefniadau llywodraethu wedi addasu i ymateb i'r pandemig, a'r effaith y mae'r argyfwng wedi'i chael ar ddarparu gwasanaeth.

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau manylach i'r Bwrdd Iechyd eleni (gweler **Atodiad 1)**. Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith sy'n dal yn mynd rhagddo, ond heb ei gwblhau eto.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau ymgymryd â'm gwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2022.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio cyfrifon a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2022 a sut y cawsant sylw drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid ac Ysgrifennydd y Bwrdd wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe wnaethom ni ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 26 Ionawr. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu ei gyhoeddi yn ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar Wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwilio cyfrifon

12 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol gywir a chyhoeddais farn archwilio ddiamod arnynt. Ni wnaeth fy ngwaith nodi unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel sy'n berthnasol i'm harchwiliad). Fe wnes i ddod ag un mater arall i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio. Fel yr adroddwyd yn 2021, nid yw system y Bwrdd Iechyd i gasglu balansau gwyliau blynyddol diwedd blwyddyn a chyfrifo'r ddarpariaeth diwedd blwyddyn yn gadarn a dylid ei gwella.

13 Cyhoeddais farn ag amod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2020-22 y Bwrdd Iechyd am ddau reswm:

- ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni sefyllfa ariannol fantoledig am y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 ac nid oedd Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd gymeradwy ar waith ar gyfer y cyfnod 2019-2022; ac
- fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ysgwyddo gwariant ar rwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr GIG, yr wyf o'r farn eu bod y tu allan i'w bwerau i'w wario.

14 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, rhoddais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at y methiant i gyflawni sefyllfa ariannol fantoledig a bod â chynllun tair blynedd gymeradwy ar waith a mater rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau y defnyddir adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

15 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu da ar waith ar lefel gorfforaethol, gyda gweledigaeth strategol glir, gwella systemau sicrwydd, a phwyslais cryf ar staff a chleifion. Ond nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy gan Lywodraeth Cymru ac mae ar y trywydd i gyflawni diffyg ariannol sylweddol ar ddiwedd 2022-23. Mae angen rhagor o waith i symleiddio strwythur gweithredol a threfniadau rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni.
- er gwaethaf y buddsoddiad ychwanegol mewn adfer rhestrau aros, mae'r twf sylweddol yn nifer y bobl sy'n aros yn debygol o olygu na fydd rhestrau aros yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig am flynyddoedd lawer.

16 Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwilio cyfrifon

17 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos y stiwardiaeth o arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion, a llif arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a'r defnydd cywir ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

18 Roedd fy Nghynllun Archwilio 2022 yn nodi'r risgiau allweddol ar gyfer archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2021-22 a manylir ar y rhain ynghyd â sut y cawsant sylw yn **Atodiad 3**.

19 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar Wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoad cyfrifon 2021-22

20 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol gywir a chyhoeddais farn archwilio ddiamod arnynt. Nid wnaeth fy ngwaith nodi unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel sy'n berthnasol i'm harchwiliad). Fodd bynnag, daeth ag un mater arall i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ynghylch yr angen parhaus i wella'r system i gasglu balansau gwyliau blynyddol diwedd blwyddyn a chyfrifo'r ddarpariaeth diwedd blwyddyn.

21 Cyflwynwyd cyfrifon drafft i'w harchwilio ar amser ac roedd ansawdd y papurau gwaith yn dda. Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol eraill mewn rheolaethau mewnol.

22 Rhaid i mi adrodd am faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg) i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn ar 8 Mehefin 2022. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Mae un camddatganiad yn y cyfrifon sydd uwchlaw ein lefel ddibwys (£0.6 miliwn) ond yn is na lefel perthnasedd (£11.6 miliwn). Trafodwyd hyn gyda'r rheolwyr, ond yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru mae'n parhau heb ei gywiro. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| | Mae tir ac adeiladau'r GIG yn destun ailbrisiadau llawn bob pum mlynedd gan y Gwasanaethau Prisiwr Dosbarth (DVS). Yn y blynyddoedd cyfamserol, mynegir gwerth yr asedau hyn gan ddefnyddio mynegeion a gynghorir gan y DVS. Ym mis Awst 2021, darparodd y DVS y cyfraddau i'w defnyddio yn 2021-22. Y mynegai a ddyfynnir ar gyfer adeiladau oedd 5%. Ym mis Mawrth 2022, oherwydd cynnydd mewn costau adeiladu, diweddarodd y DVS gyfradd mynegeio adeiladau i 7% ar gyfer chwarter olaf 2021-22.<br>Yn unol â holl gyrff iechyd eraill Cymru ac yn unol â chyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru o dan Ddiweddariad Technegol 7, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cymhwyso'r gyfradd ddiweddaraf wrth gyfrifo mynegai yn y datganiadau ariannol.<br>Arweiniodd hyn at y camddatganiadau canlynol:<br>• tan ddatganiad o £4,657,000 yn ffigyrau'r mynegai (cost)<br>• tan ddatganiad o £712,000 yn ffigyrau'r mynegai (dibrisiant cronedig)<br>• tan ddatganiad o £3,758,000 yn ffigyrau'r mynegai (Gwerth Llyfr Net)<br>• tan ddatganiad o £1,923,000 mewn amhariad ffigurau gwrthdroad a gredydwyd i'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net<br>• tan ddatganiad o £2,023,000 mewn enillion a bostiwyd i'r gronfa ailbrisio<br>• tan ddatganiad o £44,000 mewn dibrisiant a godir i'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net<br>• gôr ddatganiad o £1,829,000 yn y costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol<br>Yn unigol a gyda'i gilydd, nid oedd y camddatganiadau hyn heb eu haddasu yn berthnasol i'r datganiadau ariannol. Felly, nid oedd y cywiriad yn effeithio'n andwyol ar fy marn archwilio. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Roedd camddatganiadau cychwynnol yn y cyfrifon a gywirwyd gan reolwyr. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Materion pwysig eraill | Yr angen i wella system y Bwrdd Iechyd i gasglu balansau gwyliau blynyddol diwedd blwyddyn er mwyn gallu cyfrifo'r ddarpariaeth diwedd blwyddyn.<br>Gosodwyd amod ar y farn rheoleidd-dra oherwydd na chyflawnodd y Bwrdd Iechyd sefyllfa ariannol fantoledig am y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022; Dim cynllun tymor canolig integredig tair blynedd gymeradwy ar waith ar gyfer y cyfnod 2019-2022; ac wedi gwario ar rwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr GIG, yr wyf yn credu eu bod y tu hwnt i'w bwerau i'w wario. |

23 Cynhaliais adolygiad hefyd o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod y wybodaeth cydgrynhoi parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2022 a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

24 Mae fy archwiliad ar wahân o'r datganiadau ariannol cronfeydd elusennol wedi'i gwblhau a'i adrodd i ymddiriedolwyr. Rhoddwyd barn archwilio anghymwys ac nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol yn codi.

## Rheoleidd-dra trafodion ariannol

25 Rhaid i drafodion ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael y pwerau i dderbyn yr incwm ac ysgwyddo'r gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau a'r profion hyn nad oes elfennau materol o incwm na gwariant  nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w derbyn na'u hysgwyddo.

26 Lle nad yw Bwrdd Iechyd yn cyflawni cydbwysedd ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi gymhwyso fy marn ar reoleidd-dra.

27 **Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd sefyllfa ariannol fantoledig am y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, ac yn ogystal â gwario ar rwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr GIG, yr wyf yn credu ei fod y tu allan i'w bwerau i wario, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ag amod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2021-22 y Bwrdd Iechyd**.

28 Ar gyfer 2021-22, methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni'r ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail. Mae'r ddyletswydd ariannol gyntaf yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i gyrff y GIG drwy ganiatáu iddynt fantoli eu hincwm â'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd. Y cyfnod tair blynedd sy'n cael ei fesur o dan y ddyletswydd hon eleni yw 2019-20 i 2021-22.

29 Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd reoli ei wariant refeniw o fewn ei ddyraniad adnoddau dros y cyfnod tair blynedd hwn, gan fynd dros ei derfyn adnoddau refeniw cronnus o £2,996.3 miliwn gan £84.9 miliwn. Pan nad yw corff GIG yn mantoli ei lyfrau dros gyfnod treigl o dair blynedd, mae unrhyw wariant dros y dyraniad adnoddau ar gyfer y tair blynedd hynny yn fwy nag sydd gan gorff y GIG yr awdurdod i'w wario ac felly mae'n cael ei ystyried yn 'afreolaidd'.

30 Mae'r ail ddyletswydd ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig treigl tair blynedd sydd wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae'r ddyletswydd hon yn sylfaen hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd o ansawdd cynaliadwy. Bernir bod Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r ddyletswydd hon ar gyfer 2021-22 pe bai'n cyflwyno cynllun 2019-20 i 2021-22 a gymeradwywyd gan ei Fwrdd i Weinidogion Cymru a oedd wedyn yn ei gymeradwyo erbyn 30 Mehefin 2019. Nid yw'r ddyletswydd hon wedi newid o 2019-20 oherwydd y pandemig, cafodd y ddyletswydd i baratoi cynllun tair blynedd newydd ar gyfer y cyfnod 2021-22 i 2023-24 ei hatal, gan adael dyletswydd y flwyddyn flaenorol ar waith. Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ail ddyletswydd ariannol i gael Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd gymeradwy ar waith ar gyfer y cyfnod 2019-20 i 2021-22.

31 Cyflwynais amod i'r farn rheoleidd-dra hefyd gan fod y datganiadau ariannol yn cynnwys darpariaeth (a gwariant cyfatebol) o £941,000, yn ymwneud ag atebolrwydd a amcangyfrifir gan y Bwrdd Iechyd yn deillio o Gyfarwyddyd Gweinidogol yn 2019. Cyfarwyddodd y Cyfarwyddyd y dylid gwneud taliadau i staff clinigol, os hawliwyd, i adfer gwerth eu pecynnau buddion pensiwn.

32 Ar gyfer clinigwyr y GIG a ddewisodd hawlio'r cynnig ariannol i setlo eu taliadau treth lwfans blynyddol sy'n codi o'u cynilion pensiwn GIG 2019-20, byddai eu cyflogwyr GIG yn diwallu effaith y taliadau treth bersonol hynny ar eu pensiwn pan fyddant yn ymddeol. Cafodd hawliadau a gyflwynwyd erbyn y dyddiad cau ar 31 Mawrth 2022 eu cyfrif fel gwariant o fewn datganiadau ariannol 2021-22. Yn fy marn i, mae'r gwariant hwn yn afreolaidd ac yn berthnasol oherwydd ei natur.

33 **Ochr yn ochr â'm barn archwilio, rhoddais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at y methiant i sicrhau sefyllfa ariannol fantoledig, y methiant i gael cynllun tair blynedd gymeradwy ar waith, a mater rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG**.

34 Mae gennyf y pŵer i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn lle rwyf am dynnu sylw at faterion. Oherwydd y materion a nodir uchod, cyhoeddais adroddiad o sylwedd yn nodi'r manylion ffeithiol sy'n ymwneud â dyletswyddau ariannol y Bwrdd Iechyd a rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau y defnyddir adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

35 Mae'n ofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau y defnyddir adnoddu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus;
- cynnal adolygiad lefel uchel o sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad gofal a gynllunnir.

36 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

### Asesiad strwythuredig

37 Cynhaliwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2022 ar adeg pan oedd cyrff y GIG nid yn unig yn parhau i fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, ond roedden nhw hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r nifer sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth.

38 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; trefniadau cynllunio strategol; trefniadau rheoli ariannol; a threfniadau ar gyfer rheoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill. Talodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

#### Trefniadau llywodraethu

39 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgor;
- i ba raddau y mae dylunio sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da; a
- systemau sicrwydd allweddol.

40 **Yn gyffredinol, canfu fy ngwaith fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu da ar waith ar lefel gorfforaethol, gyda chefnogaeth Fframwaith Sicrwydd Bwrdd cadarn a gwella ffynonellau o sicrwydd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd pellach yn bodoli i fireinio strwythurau gweithredol a threfniadau rheoli perfformiad i gefnogi'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r heriau a'r risgiau sylweddol y mae'n eu hwynebu**.

41 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod ag ymrwymiad cryf iawn i dryloywder cyhoeddus, gyda rhai cyfleoedd bach i wella tryloywder ymhellach trwy sicrhau bod y wefan yn cael ei diweddaru. Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd ac yn galluogi'r Bwrdd a'r pwyllgorau i weithio'n effeithiol. Derbynnir gwybodaeth o ansawdd da i gefnogi craffu, sicrwydd a gwneud penderfyniadau effeithiol, ac mae ymrwymiad cryf o hyd yn y Bwrdd i glywed gan gleifion a staff. Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn sefydlog ac mae ganddo ddull cadarn o ddysgu, datblygu a gwelliant parhaus. Mae'r Tîm Gweithredol hefyd yn sefydlog ac mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol, dan arweiniad Ysgrifennydd y Bwrdd, yn parhau i gefnogi'r Bwrdd yn dda. Fodd bynnag, mae strwythur gweithredol y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn gymhleth, gan beri risgiau i strwythurau llywodraethu dryslyd ac anghyson. Mae newidiadau i wella'r strwythur yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

42 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â Fframwaith Sicrwydd Bwrdd effeithiol, a threfniadau cadarn ar gyfer rheoli risg. Mae Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig (IPAR) yn parhau i gael eu hadrodd i'r Bwrdd a'r pwyllgorau. Fodd bynnag, gallai trefniadau rheoli perfformiad ar lefel weithredol fod yn fwy syml i sicrhau bod digon o afael a dull cydgysylltiedig. Mae trefniadau llywodraethu ansawdd a llywodraethu gwybodaeth y Bwrdd Iechyd yn gwella, ac mae trefniadau effeithiol yn parhau i fod ar waith ar gyfer olrhain canfyddiadau ac argymhellion archwilio ac adolygu.

## Trefniadau cynllunio strategol

43 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau cynllunio'r sefydliad:

- gweledigaeth ac amcanion strategol;
- Cynllun Tymor Canolig Integredig;
- trefniadau cynllunio; a
- trefniadau ar gyfer gweithredu a monitro cyflwyno strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

44 **Canfu fy ngwaith fod gan y Bwrdd Iechyd fwriad strategol clir wedi'i gefnogi gan ymgysylltiad a mecanweithiau da i randdeiliaid ar gyfer monitro darpariaeth, ond nid yw'n gallu trosi'r weledigaeth hirdymor eto yn gynllun gweithredol y gall Llywodraeth Cymru ei gymeradwyo**.

45 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â gweledigaeth glir ar gyfer gofal iechyd yng ngorllewin Cymru wedi ei gefnogi gan amcanion strategol clir. Mae trefniadau cadarn ar gyfer sicrhau bod cynlluniau'n cael eu halinio, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac ymgorffori gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, ar waith. Mae prosesau cadarn hefyd ar gyfer monitro a chraffu ar gyflawni cynlluniau strategol a gweithredol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig y gall Llywodraeth Cymru ei gymeradwyo, ac mae'n gweithio i Gynllun Blynyddol, nad yw ychwaith wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar

adeg ysgrifennu. Mae camau'n cael eu cymryd i fireinio amcanion cynllunio a fydd yn caniatáu mwy o bwyslais ar ganlyniadau disgwyliedig, ond nid yw cynlluniau gweithredu ar gyfer strategaethau sylfaenol bob amser yn weladwy nac yn gadarn.

## Rheoli adnoddau ariannol

46 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau'r sefydliad:

- trefniadau ar gyfer cyflawni amcanion ariannol allweddol;
- rheolaethau ariannol;
- trefniadau ar gyfer adrodd a monitro perfformiad ariannol.

47 **Canfu fy ngwaith nad yw'r Bwrdd Iechyd, er gwaethaf y rheolaethau ariannol priodol a mecanweithiau adrodd cadarn, monitro a chraffu ar waith, yn gallu sicrhau sefyllfa ariannol fantoledig ac mae'n adrodd sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu'n sylweddol**.

48 Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ariannol a rheolaethau yn briodol ac mae adroddiadau ariannol cynhwysfawr ar waith y mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn craffu arnynt yn rheolaidd. Ond nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu aros o fewn ei derfynau cyllidebol. Yn 2021-22, methodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer refeniw, gan ddod â'r flwyddyn i ben gyda diffyg ariannol o £25 miliwn. Bydd hefyd yn methu â'u cyflawni yn 2022-23, gyda diffyg a ragwelir o £59 miliwn a diffyg cronnus o dair blynedd o £108.9 miliwn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu lleihau ei ddiffyg rhagolwg diwygiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni'r arbedion gofynnol ond mae llawer o'r rhain yn anghylchol, ac nid oes cynllun ariannol tymor hwy wedi'i ddiweddaru ar waith eto.

## Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill

49 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ehangach, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau'r sefydliad:

- ar gyfer cefnogi lles staff
- ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol; ac
- ar gyfer rheoli ei ystad ac asedau corfforol eraill.

50 **Canfu fy ngwaith fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn i gefnogi lles staff a rheoli ei ystad a'i asedau corfforol. Mae yna strategaethau clir ar gyfer digidol ac ystadau, ond mae cyllid cyfalaf cyfyngedig yn her sylweddol**.

51 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau sylweddol i wella lles staff. Mae wedi rhoi cynllun gweithredu manwl ar waith, yn seiliedig ar farn a phrofiadau staff. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull 'Fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni' i roi adborth i'r staff am y camau sydd wedi'u cymryd. Mae hefyd yn rhagweithiol gan ddefnyddio ystod o fesurau i ddangos effaith ei raglen lles staff. Mae lles staff yn flaenoriaeth glir ac mae trefniadau cadarn ar gyfer goruchwylio.

52 Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth ddigidol glir, fel y nodir yn ei Strategaeth Ddigidol – 'Ein Hymateb Digidol 2020-2025'. Fodd bynnag, mae'r cyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Bwrdd Iechyd yn cael ei leihau'n sylweddol ar gyfer 2022-23, ac nid oes modd cefnogi unrhyw ddatblygiadau digidol, oni bai bod cyllid ychwanegol ar gael. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu dyrannu £0.2 miliwn i ddigidol drwy ei gronfa cyfalaf dewisol. Mae trefniadau clir ar gyfer goruchwylio ond gellid cryfhau adrodd ar weithredu'r strategaeth ddigidol.

53 Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth ystadau clir yn ei strategaeth hirdymor ac mae wedi cyflwyno ei Rhaglen Achos Busnes i Lywodraeth Cymru yn nodi ei fwriad i wneud newidiadau sylweddol i'w ystad glinigol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn y camau cynnar o ddatblygu cynllun ar gyfer ei ystad anghlinigol, gan adlewyrchu'r newid mewn gweithio hybrid a welwyd oherwydd y pandemig. Oherwydd y gostyngiad sylweddol mewn cronfeydd cyfalaf, dyrannwyd £31 miliwn i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2022-23, o'i gymharu â'r cyfartaledd o £44 miliwn y flwyddyn dros y deng mlynedd nesaf y nododd fod ei angen i gynnal parhad busnes mewn perthynas â'i ystadau a'i asedau. Mae trefniadau cadarn ar waith ar gyfer goruchwylio prosiectau a rhaglenni cyfalaf, a chyflwr yr ystad ac asedau ffisegol. Adroddir gwybodaeth gynhwysfawr ac mae proses glir ar gyfer blaenoriaethu cyllid.

## Mynd i'r afael â'r ôl-groniad gofal sydd wedi'i gynllunio yng Nghymru

54 Ym mis Mai 2022, cyhoeddais adroddiad a oedd yn nodi maint yr ôl-groniad gofal wedi'i gynllunio yn GIG Cymru, a'r camau allweddol y mae angen i'r system eu cymryd i ddechrau mynd i'r afael â'r ôl-groniad. Amlygodd fy adroddiad dwf parhaus niferoedd y rhestrau aros cyffredinol o fis i fis, gan nodi bod cyfradd y twf yn arafu. Nododd hefyd y byddai'r gostyngiad anochel mewn atgyfeiriadau a welwyd yn ystod y pandemig yn debygol o arwain at y galw cudd hwn yn dod yn ôl i'r system yn y pen draw. O ystyried y ffactorau hyn a ffactorau eraill, amcangyfrifodd fy ngwaith y gallai fod cymaint â saith mlynedd cyn i niferoedd cyffredinol y rhestrau aros yng Nghymru ddychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig.

55 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio cynllun adfer cenedlaethol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio gyda cherrig milltir allweddol i fyrddau iechyd eu cyflawni, gan gynnwys ffocws cychwynnol ar y cleifion hynny sy'n wynebu arosiadau hir iawn. Fodd bynnag, mae'r cerrig milltir hynny eisoes yn profi'n anodd ei chyflawni.

56 Yn unol â'r camau gweithredu allweddol, nodais yn fy adroddiad, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd, ynghyd ag eraill yng Nghymru, greu a diogelu capasiti ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, a pharhau i ganolbwyntio ar effeithlonrwydd a chynhyrchiant.

57 Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd sicrhau ei fod yn mynd ati i reoli'r risgiau clinigol i gleifion sy'n wynebu arosiadau hir am driniaeth a gwella ei systemau ar gyfer cyfathrebu â chleifion i'w helpu i reoli eu cyflwr tra byddant yn aros a'u hysbysu o beth i'w wneud os bydd eu cyflwr yn gwaethygu.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2022.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol | Mehefin 2022 |
| Barn ar y datganiadau ariannol | Mehefin 2022 |
| Adroddiad Archwilio Cronfeydd Elusennol | Ionawr 2023 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Mynd i'r afael â'r Ôl-groniad Gofal wedi'i Gynllunio yng Nghymru | Mai 2022 |
| Asesiad Strwythuredig 2022 | Rhagfyr 2022 |
| **Arall** | |
| 2022 Cynllun Archwilio | Ebrill 2022 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2022 yn cynnwys adolygiadau oedd yn canolbwyntio ar y GIG a phynciau'r sector gyhoeddus. Mae'r astudiaethau hyn fel arfer yn cael eu hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith craffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar y Wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo.**

Mae sawl archwiliad perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau a amcangyfrifir ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| **Adroddiad** | **Dyddiad cwblhau a amcangyfrifir** |
|---|---|
| Orthopedeg | Chwefror 2023 |
| Adolygiad o drefniadau llywodraethu mewn iechyd meddwl | Chwefror 2023 |
| Gofal heb ei drefnu - llif cleifion allan o'r ysbyty | Mawrth 2023 |
| Cynllunio'r gweithlu | Ebrill 2023 |
| Adolygiad dilynol o wasanaethau gofal sylfaenol | Gorffennaf 2023 |
| Gofal heb ei drefnu – mynediad at wasanaethau gofal heb ei drefnu | Medi 2023 |
| Adolygiad o drefniadau llywodraethu gweithredol | Medi 2023 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2022 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £373,181 (ac eithrio TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod rhywfaint o waith yn parhau i fynd rhagddo, yn unol â'r ffi a nodir yn y cynllun archwilio.

# Atodiad 3

## Archwilio risgiau cyfrifon

**Arddangosyn 4: archwilio risgiau cyfrifon**

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2022 yn nodi'r risgiau ar gyfer archwilio cyfrifon 2021-22 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut y cawsant sylw fel rhan o'r archwiliad.

| Archwilio risg | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y bydd y rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai diystyru o'r fath ddigwydd, mae'n cael ei ystyried yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Byddwn ni yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tuedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i gwrs busnes arferol. | Gwnaed y gwaith fel y bwriadwyd ac nid oes materion yn codi mewn perthynas â rheolwyr yn diystyru. |

| Archwilio risg | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg sylweddol y byddwch yn methu â chyflawni eich dyletswydd ariannol gyntaf i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r sefyllfa ym mis 10 yn dangos y rhagwelir diffyg diwedd blwyddyn o £25 miliwn. Mae hyn, ynghyd â'r alldro ar gyfer 2019-20 a 2020-21, yn rhagweld diffyg tair blynedd o £84.9 miliwn.<br>Pan fyddwch yn methu'r ddyletswydd ariannol hon, byddwn yn rhoi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol sy'n tynnu sylw at y methiant ac yn cynnwys amod ar eich barn reoleidd-dra.<br>Mae'r pwysau ariannol presennol arnoch yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheoli fod â thuedd ynddynt i gyflawni'r targedau ariannol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. | Byddwn yn canolbwyntio ein profion ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys tuedd wrth adrodd. | Gwnaed y gwaith fel y bwriadwyd ac nid oes materion yn codi mewn perthynas â thuedd wrth adrodd, ond roedd amod ar ein barn rheoleidd-dra o ran methu â chyflawni'r ddyletswydd ariannol hon. |

| Archwilio risg | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Mae gweithredu'r fenter 'cynllun yn talu' mewn perthynas â threfniadau treth pensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol yn parhau. Llynedd fe wnaethom gynnwys paragraff Pwyslais ar fater yn y farn archwilio gan dynnu sylw at ddatgelu atebolrwydd wrth gefn. Bydd ceisiadau i'r cynllun yn cau ar 31 Mawrth 2022, ac os gwneir unrhyw wariant o fewn y flwyddyn, byddem yn ystyried ei fod yn afreolaidd gan ei fod yn mynd yn groes i ofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. | Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth mewn blwyddyn ar y defnydd o'r cynllun a'r angen am ddarpariaeth, a'r effaith ganlyniadol ar y farn reoleidd-dra. | Gwnaeth fy nhîm fodloni eu hunain bod y darpariaethau a ddatgelwyd yn y cyfrifon yn briodol, fodd bynnag, fe wnes gynnwys amod ar y farn reoleidd-dra oherwydd i mi ddod i'r casgliad bod y gwariant hwn yn afreolaidd ac yn berthnasol yn ôl ei natur a rhoddais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at fater rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG. |
| Er bod cyfyngiadau COVID-19 bellach wedi'u dileu, bu pwysau parhaus ar adnoddau staff a gweithio o bell a allai effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon. Mae risg y gallai ansawdd y cyfrifon a phapurau gwaith ategol gael eu peryglu gan arwain at fwy o achosion o wallau. Gellir peryglu trefniadau monitro ansawdd oherwydd materion amseru a/neu yr adnoddau sydd ar gael. | Byddwn yn trafod eich proses gau a'ch trefniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses o baratoi cyfrifon. Byddwn yn helpu i nodi meysydd lle gallai fod bylchau yn y trefniadau. | Gwaith wedi ei wneud fel y bwriadwyd. Nid oedd materion yn codi mewn perthynas â phrosesau cau, trefniadau monitro ansawdd na'r broses o baratoi cyfrifon. |

| Archwilio risg | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Mae mwy o ffrydiau cyllido a gwariant yn parhau yn 2021-22 i ddelio â phandemig COVID-19. Gallai'r rhain gael effaith ar risgiau camddatganiad a'r ffurf a'r dull o ymdrin â'n harchwiliad. Mae enghreifftiau o faterion yn cynnwys cyfrifo am ddatgomisiynu ysbytai maes a'u costau cysylltiedig; twyll, risgiau gwall a rheoleidd-dra o wariant ychwanegol; prisiad (gan gynnwys darfodiad) o restrau cynnwys a chyflwr diwedd blwyddyn gan gynnwys Cyfarpar Diogelu Personol; ac amcangyfrif balansau gwyliau blynyddol. | Byddwn yn nodi'r materion allweddol a'r risgiau cysylltiedig ac yn cynllunio ein gwaith i gael y sicrwydd sydd ei angen ar gyfer ein harchwiliad. | Gwaith wedi ei wneud fel y bwriadwyd ac un mater yn codi mewn perthynas â diffyg system gadarn i gasglu balansau gwyliau blynyddol sy'n cyfrannu at ddarpariaeth gwyliau blynyddol diwedd y flwyddyn. |
| Mae cyflwyno Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 – Lesoedd wedi'i ohirio tan 1 Ebrill 2022. Efallai y bydd angen cryn waith i nodi lesoedd a gall argyfwng cenedlaethol COVID-19 beri risgiau gweithredu ychwanegol. Bydd angen i gyfrifon 2021-22 ddatgelu effaith bosibl gweithredu'r safon. | Byddwn yn adolygu cyflawnrwydd a chywirdeb y datgeliadau. | Gwnaeth fy nhîm fodloni eu hunain bod y datgeliadau yn berthnasol gyflawn ac yn gywir. |

| Archwilio risg | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Yn 2020-21 fe wnaethom nodi gwendidau yn systemau'r Bwrdd Iechyd i nodi balansau gwyliau blynyddol ar gyfer cyfrifo'r gwyliau blynyddol diwedd blwyddyn. Mae'r balans blynyddol sy'n cronni gwyliau yn debygol o fod yn berthnasol eto ar gyfer 2021-22. | Byddwn yn adolygu'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i wella'r systemau i ddal balansau gwyliau blynyddol diwedd blwyddyn a chynnal profion manwl ar y balansau a'r datgeliadau cysylltiedig yn y cyfrifon. | Gwaith wedi ei wneud fel y bwriadwyd.<br>Nid oes unrhyw welliannau i systemau gwyliau blynyddol sylfaenol y Bwrdd Iechyd, ac felly mae'r argymhelliad o 2020-21 yn sefyll.<br>Cynhaliodd fy nhîm waith archwilio ychwanegol i fodloni eu hunain nad oedd y balansau gwyliau blynyddol a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r croniad gwyliau blynyddol yn y cyfrifon wedi'u cam-nodi'n sylweddol. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.